

Mwynhau'r Gân



CERDDORIAETH

Agor drwy chwarae 'Fy nghân i ti' – Linda Griffiths yn canu cân Sbardun.

GWEDDI

Fel ganaf fy nghân i ti, y Duw mawr a rhyfeddol sydd mor agos atom ac yn ein caru i'r eithaf. Diolch o gofio i ti ein creu mor berffaith, ond edifarhawn ein bod wedi troi cefn arnat ac wedi ceisio ymbellhau. Eto mae dy gariad yn parhau ac yn cael ei amlygu mewn ffordd mor anhygoel trwy berson Iesu Grist.

EMYN 189 'O am gael ffydd i edrych'

DARLLENIAD Salm 47

CYFLWYNYDD

Fel Cymry sy'n ymfalchïo yn y disgrifiad 'Gwlad y Gân', mae gennym waddol o gerddoriaeth wych, boed hynny trwy ganu gwerin, cerdd dant neu'n fwy clasurol.

Ystyriwch ganu Geraint Evans neu Bryn Terfel, Côr Seiriol, Leah Owen, Jac a Wil, Triawd y Coleg, Meredydd Evans ei hun, Pedwarawd y Wenallt a Sassie Rees.

Ac wedyn daeth y Beatles a'r Rolling Stones, a hynny yn sgil Elvis, Chuck Berry, BB King, a'r lliaws cerddorion blŵs a roc a rôl a ddaeth o America.

Pwy, tybed yw, eich hoff gerddorion a pha rai yw'ch hoff ganeuon? 'Love me Do' neu 'Get Back', 'Satisfaction' neu 'Brown Sugar'?

Ac yn sgil hyn i gyd, a hefyd o dan ddylanwad sgiffl, yng Nghymru daeth Hogia Llandegai a Hogia'r Wyddfa.

Yna gwelsom rai fel Dafydd Iwan a Huw Jones yn canu protest, dan ddylanwad Woody Guthrie a Bob Dylan efallai.

Beth neu pwy ydy'ch hoff gantorion, neu beth yw'ch hoff ganeuon chi, tybed?

CHWARAE Lisa Pedrick yn canu 'Fel yr Hydd'

GWEDDI

O Arglwydd,
ni wn pa beth y dylwn ei ofyn gennyt;
tydi yn unig a wŷr fy angen;
ceri di fi yn well nag a garaf fy hunan.
O Dad, rho i dy blentyn
yr hyn na wŷr sut i ofyn amdano.
Nid gwiw gennyf ofyn am groesau na chysuron;
gosodaf fy hunan ger dy fron;
agoraf fy nghalon i ti;
gwêl fy angen a rho i mi yn ôl dy drugaredd rasol.
Rho ddynod neu wên i mi;
gostwng neu dyrchafa fi;
moliannaf dy holl amcanion heb eu gwybod;
ymostyngaf i ti;
ni fynnaf unrhyw amcan arall
ond gwneud dy ewyllys sanctaidd.

(Gweddi Francois Fenelon wedi'i chynnwys yn *Amser i Dduw*, Elfed ap Nefydd Roberts)

CHWARAE Elin Fflur yn canu 'Harbwr Diogel'

EMYN 319 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd'

ARWEINYDD

Wrth i ni fynd yn ôl at Lyfr y Salmau, mae'n dod yn amlwg bod canu cân i Dduw yn reddfol, naturiol a sylfaenol i'n perthynas â Duw ei hun, y Duw sydd wedi'n creu, ein cynnal a'n caru mewn modd mor rhyfeddol. Mae'n rhan annatod o'r ffaith ein bod yn cydnabod ein hunain fel plant iddo, ac yntau'n Dad tosturiol a maddeugar. A dyma'r ddelwedd o Dduw sydd angen ei chynnal: Duw sy'n oddefgar a chariadus, y Duw a'n creodd ar ei ddelw ei hun. Er i ni ymbellhau oddi wrtho, mae

o wastad wedi estyn ei fraich atom a hynny'n fynegiant o'i ofal a'i gariad mawr atom. A diolch ydy'n rhan, a dim arall.

EMYN 335 'Dyma Frawd a anwyd inni'

GWEDDI

O Arglwydd a Gwneuthurwr pob dim,
drwy allu creadigol yr hwn y daeth y goleuni cyntaf, a'r hwn
yr edrychaist ar fore cyntaf y byd ac a welaist mai da oedd,
molaf di am y goleuni sy'n llifo ataf drwy fy ffenestri yn awr
ac yn fy nihuno i fywyd diwrnod arall.

(Gweddi John Baillie, cyfieithiad Trebor Lloyd Evans, wedi'i chynnwys yn *Amser i Dduw*, Elfed ap Nefydd Roberts)

GWEDDI [parhad]

Molaf di am y bywyd sy'n ennyn o'm mewn:
Molaf di am y byd cain a phrydferth yr af iddo:
Molaf di am dir a môr a ffurfafen,
am gwmwl a yrrir gan wynt ac am gân aderyn:
Molaf di am y gwaith a roddaist i mi i'w wneud:
Molaf di am ddiddordebau f'oriau hamdden;
Molaf di am fy nghyfeillion:
Molaf di am fiwsig a llyfrau
a chwmni da a phob pleser glân.

EMYN 756 'Gwna fi fel pren planedig, O fy Nuw'

Y FENDITH

(T.J.-M.)